CADWYN BRO

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych
Gweinidog: Y Parch. Ddr. Andras Iago
Ffôn- 07778511672 *Ebost*- andrasiago@outlook.com
Mawrth 2019 *Rhif 091*

Wel, mae tymor y Chwe Gwlad wedi'n cyrraedd ni eto! Efallai bydd ambell un o'r fro yn cael cyfle i fynd i Stadiwm y Dywysogaeth i ganu'r 'Hymns and Arias' a gwisgo fel Cenhinen Bedr am brynhawn. Da chi, mwynhewch, a chofiwch fi at yr hwntws!

Os cewch chi gyfle – os ydych chi'n pasio - mae'n werth picio i weld yr ystafell farmor yn neuadd dinas Caerdydd. Yno fe welwch chi unarddeg cerflun o arwyr hanes Cymru drwy'r canrifoedd. Yng nghanol y stafell, yn y lle amlycaf, mae'r cerflun hardd o Dewi Sant. Mae'r cerflunydd wedi dewis ei bortreadu yn cyhoeddi ei neges – a'i ddwylo o'i flaen, yn ymbil ac ymresymu, a golwg ddwys ar ei wyneb.

Y geiriau sy'n dod i'r meddwl wrth ei weld yw geiriau enwocaf Dewi - "Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch lawen a chadwch eich ffydd a'ch cred. A gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf fi". Ail hanner y dyfyniad yw'r mwyaf cyfarwydd erbyn hyn ar lafar. Ond beth am yr hanner cyntaf? Mae'r anogaeth i 'lawenhau' yn ymddangos sawl tro yn y Beibl – yr enwocaf efallai yw geiriau Paul at y Philipiaid – 'Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser; fe'i dywedaf eto, llawenhewch'. Meddyliwch am yr holl bethau sy'n effeithio ar sut ydyn ni o ddydd i ddydd. Os yw gwaith neu gynlluniau heddiw ddim yn mynd fel oeddem ni'n disgwyl, neu hyd yn oed os ydyn ni'n colli yn y rygbi, gall effeithio tipyn ar yr hwyliau! 'Llawenhewch yn yr Arglwydd', medd Dewi a Paul – codwch eich golwg at Dduw, ei gariad a'i drugaredd atoch chi yn bersonol yn Iesu Grist. 'Rwyt wedi dangos y ffordd i fywyd i mi; bydd bod gyda ti yn fy llenwi â llawenydd a hyfrydwch diddiwedd bob amser' (Salm 16:11).

DIGWYDDIADUR

CINIO'R FRO

Cynhelir y Cinio nesaf Dydd Gwener, Mawrth 8fed yn Festri'r Capel Mawr am 12.00. Mae croeso i bawb gael cyfle i gymdeithasu dros pryd o fwyd.

Astudiaeth Feiblaidd

Bydd Astudiaeth Feiblaidd yn cael ei gynnal ar ddydd Mercher y 6ed a'r 20fed am 1.30. Byddwn yn parhau i edrych ar lythyr Paul at y Philipiaid. Croeso cynnes iawn i bawb!

Clwb Ieuenctid ar yr 8fed a'r 22ain o Fawrth, 7.00-8.30 y.h, yn Festri Capel y Dyffryn. Croeso i unrhyw un o oed uwchradd. Am fwy o fanylion cysylltwch ag Andras.

Noson Grempog, 7 o'r gloch, nos Fawrth 5ed o Fawrth yn Capel Y Fron - er budd Cymorth Cristnogol. Bydd Anna Jane Evans yno yn sgwrsio am waith Cymorth Cristnogol a cyfle i gael nwyddau Masnach Deg. Pris y tocyn £5.

Pythefnos Masnach Deg 2019: 25 Chwefror – 10 Mawrth
Pob blwyddyn, mae Bythefnos Masnach Deg yn rhoi'r cyfle i ni yma yn Ninbych i ddathlu llwyddiant Masnach Deg ac i ddysgu mwy am y gwahaniaeth mae prynu nwyddau Masnach Deg yn ei wneud i bobl a chymunedau ar draws y byd. Eleni, mae'r pwyslais ar fywydau merched yn y diwydiant coco, a'r ymgyrch i sicrhau hawliau ffermwyr coco i ennill incwm teg.

TREFNIADAU'R EGLWYSI

BODFARI

Dydd Sul, Mawrth 3ydd
2.00 - Parch Andras Iago
Dydd Llun, Mawrth 11eg
Cinio Cynnil yn y Festri 12.00-1.00
Croeso cynnes i bawb
Dydd Sul, Mawrth 17eg
2.00 – Parch Brian Wright
Dydd Sul, Mawrth 24ain
9.45 - Parch Andras Iago

CAPEL BRWCWS

Dydd Sul, Mawrth 3ydd
Gwasanaeth Gŵyl Dewi Capel Mawr am 10.00
Dydd Sul, Mawrth 10ed
Ysgol Sul am 10.00
Oedfa Gymun gyda'r Parch. Andras Iago am 2.00
Dydd Sul, Mawrth 17eg
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Alan Spencer am 2.00
Dydd Sul, Mawrth 24ain
Ysgol Sul am 10.00
Mr Tudur Hughes am 2.00
Dydd Sul, Mawrth 31
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Andras Iago am 2.00

Dydd Gwener, Mawrth 1af
Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn y Capel Mawr am 2.00

Nos Lun, Mawrth 4ydd
Cymdeithas y Chwiorydd ar y cyd gyda'r Gymdeithas Ddiwylliadol am 7yh. Cinio Gŵyl Ddewi yng nghwmni
y Parch. Ddr. Elfed ap Nefydd Roberts.
Pris £6.

YSGOL SUL - Bore Sul, Chwefror 3ydd aeth aelodau yr Ysgol Sul i weld y Banc Bwyd. Cawsom groeso gan Rhys Hughes ac orig ddiddorol ac addysgiadol yn ei gwmni. Diolchwyd gan Cai Jones.

CAPEL Y DYFFRYN

Nos Wener, Mawrth 1af am 6.30yh
Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd
yn y Festri

Dydd Sul, Mawrth 3ydd am 9.45yb
Cyfarfod Gweddi
Ysgol Sul y Plant
Organ - Glenys
Blodau - Margaret, Penybryn

Nos Lun, Mawrth 4ydd
Swper Gŵyl Ddewi ac
Adloniant gan Sam Pritchard

Dydd Sul, Mawrth 10fed am 9.45yb
Gwasanaeth Gŵyl Ddewi y Plant
Organ - Lona Meleri
Blodau - Karen

Dydd Sul, Mawrth 17eg am 11 yb
Gweinidog - Parch Andras Iago
Gwasanaeth y Cymun ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 10.30yb
Emyn a Darllen - Ceri neu Ian
Emyn a Darllen Plant - Ysgubor Wen
Organ - Iona
Blodau - Veronica

Dydd Sul, Mawrth 24ain am 9.45yb
Gwasanaeth dan ofal Teulu Bryn Ffolt
ac Ysgol Sul Plant
Organ - Alaw
Blodau - Iona

Dydd Sul, Mawrth 31ain am 11yb
Parch Olaf Davies
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 10.30yb
Emyn a Darllen - Veronica
Organ - Anwen
Blodau - Mair

GELLIFOR

Dydd Sul, Mawrth 3ydd
11.00 – Gŵyl Dewi
Llywydd – Glen
Gwasanaeth Dechreuol – Breian
Addurn Cymreig
Offeryn – Richard
Blodau - Margaret

Dydd Sul, Mawrth 10fed
9.45 - Trefniant Ni
Llywydd – Nic
Gwasanaeth Dechreuol – Erina
Offeryn – Alaw
Blodau - Susan

Dydd Sul, Mawrth 17eg
9.45 – Gweinidog
Llywydd – Gareth
Gwasanaeth Dechreuol – Marian
Offeryn – Margaret
Blodau - Susan

Dydd Sul, Mawrth 24ain
9.45 – Paned a Sgwrs
yng ngofal Marian, Llinos a Ruth
Rhoddion i Elusen
Blodau – Huw Bryn Clwyd

Dydd Sul, Mawrth 31ain
9.45 – Parch Olaf Davies
Llywydd – Nic
Gwasanaeth Dechreuol - Bryn Tirion
Offeryn – Nia
Blodau – Huw Bryn Clwyd

Y FRON

Llywydd y Mis – Dilys Davies

Bydd oedfa'r hwyr am 5.30 yn ailgychwyn mis yma.

Dydd Sul, Mawrth 3ydd
10.00 – Capel Mawr – Oedfa Undebol Gŵyl Dewi
5.30 – Fron – Mr Huw Vaughan Jones, Dinbych
Dydd Sul, Mawrth 10fed
11.00 – Fron - Gweinidog (Cymun)
5.30 – Capel Mawr – Gweinidog
Dydd Sul, Mawrth 17eg
10.00 – Capel Mawr – Trefnaint Mewnol
5.30 Fron – Parch Alan Spencer
Dydd Sul, Mawrth 24ain
10.00 – Fron – Mr Tudur Huhes, Llanddoged
5.30 – Capel Mawr – Mr Tudur Hughes
Dydd Sul, Marth 31ain
10.00 – Capel Mawr – Gweinidog
5.30 – Fron – Gweinidog

Organyddion – Iona Edwards ac Eiri Jones

Paratoi Bwrdd y Cymun – Gaynor Prew a Margaret Madoc Jones

Croeshawu
3ydd – Aelwyn Lloyd
10fed – Wendy Lloyd Jones
17eg – Richard Snelson
24ain – Carys Jones
31ain – Gaynor Prew

Rhoddwyr y Blodau
3 – Cays Jones
10 – Wendy Lloyd Jones
17 – Nancy Brierley

Cynhelir Swper i Ddathlu Gŵyl Dewi yn y Festri Nos Lun Mawrth 4ydd am 7 o'r gloch ar gwr gwadd ydi y Parch Dr. Elfed ap Nefydd Roberts. Croeso i aelodau Brwcws a Capel Mawr.

Y CAPEL MAWR A SEION

Y DALIER SYLW

**Cofiwch pan fo'r Gweinidog gyda ni yn y bore - yn Y Capel Mawr neu'r Fron - bydd yr oedfa am 11am.

Dydd Sul, Mawrth 3

10am – Y Capel Mawr - Dathlu Gŵyl Ddewi – Oedfa undebol i Eglwysi'r dref. Anerchiad – Miss Llinos Mary Jones, Gwyddelwern

5.30pm - Y Fron – Mr Huw V. Jones

Dydd Sul Mawrth 10

*11am – Y Fron - Y Bugail.

Gweinyddir Cymun yn ystod yr oedfa hon

5.30pm – Y Capel Mawr - Y Bugail

Dydd Llun, Mawrth 11

Cyfarfod Gweddi – 1.30pm

Dydd Sul, Mawrth 17

10am – Y Capel Mawr – Trefniant Mewnol

5.30pm – Y Fron – Y Parch. Alan Spencer

Dydd Mawrth, Mawrth 19

Yr Aelwyd am 1.30pm

Dydd Sul, Mawrth 24

10am – Y Fron – Mr Tudur Hughes

5.30pm – Y Capel Mawr – Mr Tudur Hughes

Dydd Sul, Mawrth 31

*11am – Y Capel Mawr - Y Bugail

5.30pm – Y Fron - Y Bugail

Llywydd Y Mis: – Mr Stan Lyall

Casglyddion/ Wrth y Drws:-

Mr Glyn Jones Mr Bedwyr Griffiths

Organydd/ Cyfeilydd:-

Mawrth 3– Mrs Dorothy Rogers

Mawrth 10 - Mrs Catrin Warren

Mawrth 17 - Mrs Dorothy Rogers

Mawrth 24 - Mrs Catrin Warren

Mawrth 31 – Mrs Dorothy Rogers

Blodau

Mawrth 3 – Mrs Lilian Jones

Mawrth 17 – Mrs Dorothy Rogers

Mawrth 31 – Mrs Catrin Warren

COLLI AELOD - Bu inni golli aelod yn ddiweddar gyda marwolaeth Mr Arfon Evans. Gŵr tawel ac addfwyn ydoedd Mr Evans ac un yr oedd ei deulu yn holl bwysig iddo.
Cydymdeimlwn â Mrs Nansi Evans a'r teulu yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid. Meddyliwn amdanynt yn ein gweddïau.

CYDYMDEIMLAD - Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Gwilym Luke Jones a'r teulu yn eu profedigaeth o golli nai.
Hefyd â Mr Gareth Luke Jones a gweddill y teulu yn eu profedigaeth o golli cefnder. Meddyliwn amdanynt yn ein gweddïau.

Cynhelir **Cyfarfod Dydd Gweddi'r Byd** prynhawn dydd Gwener, Mawrth 1af am **2 o'r gloch** yn y Capel Mawr. Y mae y gwasanaeth eleni wedi ei baratoi gan chwiorydd Cristnogol Slofenia.

Mawrth 11.- Cyfarfod Gweddi am 1.30. Bydd Eirian Roberts, Trefnydd Gwaith y Chwiorydd o goleg y Bala yn sgwrsio am ei gwaith. Croeso i bawb

Mawrth 19.- Yr Aelwyd yn cyfarfod am 1.30. Bydd Alun Williams Trefnant yn siarad am natur Mynydd Hiraethog. Croeso i bawb.

LLANRHAEADR, PRION A'R GLYN

Dydd Sul, Mawrth 3ydd
9.45 - Prion - Gweinidog – Gwasanaeth a Cymun
Dydd Su, Mawrth 10fed
9.45 - Pentre - Mr Celfyn Williams
Dydd Sul, Mawrth 17eg
9.45 – Prion - Parch Glyn Thomas
Dydd Sul, Mawrth 24ain
9.45 - Pentre - Gwasanaeth Gŵyl Dewi
Dydd Sul, Mawrth 31ain
9.45 – Pentre - Cyfarfod Gweddi

CYDYMDEIMLO - Anfonnwn ein cofion a'n cydymdeimlad gyda Brynle a Nesta yn eu tristwch o golli Arfon, brawd Brynle o Ddinbych.

CYMDEITHAS - Nos Iau 7fed o Fawrth, swper o salad ham a phwdin. Adloniant yng nghwmni Dylan o Dowyn,
Pris £5.00 a phlant am ddim - croeso cynnes i bawb.

GWELLHAD BUAN i Awel, Groes, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd, falch bod hi'n gwella adre.

COFION - a dymuniadau gorau'r Capel a'r ardal i Dei a Mair, Cwm Parc gynt, a phob hapusrwydd yn eu cartre' newydd yn y Bala.

LLONGYFARCHIADAU – i David a Nerys, Dyffryn ar ddod yn Daid a Nain i Noa Dafydd, mab bach i Arwel a Llinos, brawd bach i Nansi, Caerdydd. Pob bendith i'r teulu bach.

RHAGHYSBYSIAD (Pwyllgor Urdd a Phwyllgor Ffynnon Dyfnog)
Nos Sadwrn, 13eg Ebrill 2019, Cyngerdd yng Nghapel y Pentre yng nghwmni Côr Cytgan Clwyd, Lisa, Dafydd Bodelwyddan, a Dafydd Pen Bryn Llan.

Y GLYN

Dydd Sul, Mawrth 17eg
2.00 - Parch Andras Iago (Gwasanaeth Cymun)

TREFNANT

Llywydd y Mis : DILYS HUGHES

Dydd Gwener, Mawrth 1af
2.00 y.p. - Gwasanaeth DYDD GWEDDI'R BYD
Yn EGLWYS Y PLWYF

Dydd Sul, Mawrth 3ydd
10.00 - Ms Sally Harper 11.15 YSO
3.00 - Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau - Mair Stanyer

Dydd Sul, Mawrth 10fed
9.45 - Gweinidog 11.15 YSO
3.30 - Gweinidog
Blodau - Mair Stanyer

Dydd Sul, Mawrth 17ed
10.00 - Parch Ddr Elfed ap Nefydd Roberts 11.15 YSO
3.00 - Parch Ddr Elfed ap Nefydd Roberts
Blodau - Mair Roberts

Dydd Sul, Mawrth 24ain
10.00 - Parch Trefor Lewis 11.15 YSO
3.00 - Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau - Mair Roberts

Dydd Sul, Mawrth 31ain
9.45 - Gweinidog - Cymun Sanctaidd gyda phaned i ddilyn
3.30 - Gweinidog

Cynhelir Ysgol Sul y Plant yn ystod gwasanaeth y bore dan ofal Angharad Ellis ac Anwen Evans.

CYFARFOD GWEITHGAREDDAU - Mae'r cyfarfodydd prynhawniau Llun yn parhau ar bnawn Llun yn y festri. Mae yma gyfle i addoli, creu, cymdeithasu yn ogystal a mwynhau cwmni a phaned. Croeso cynnes i bawb.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL - Nos Wener, Mawrth 1af, byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Sam Pritchard. David, y Siop Sglodion, fydd yn arlwyo gydag Eleri Jones yn llywyddu'r noson. Yna , ar Nos Wener, Mawrth 22ain, cawn Sgwrs a Lluniau ar "Hanes Byd Natur yn Ardal Hiraethog" gan Alun Williams , Cae Sion. Tudor a Gruffydd Jones fydd Llywyddion y noson. Croeso cynnes i bawb i'r ddwy noson.

CYDYMDEIMLAD - Cofiwn am Clen Jones a'r teulu yn eu hiraeth o golli ei chwaer, Anna Jones o Ddinbych, ym mis Chwefror.

DYMUNIADAU GORAU - i'n haelodau i gyd gyda chofion arbennig at y rhai sy'n methu'r oedfaon a chymdeithas y Suliau ar hyn o bryd. Mae'n dda clywed fod Betty Griffiths adre o Ysbyty Treffynnon erbyn hyn - ara deg Betty a chofion lawer gennym oll.

Neges Nesta

Mae'r amser yn brysur fflio ac yn ein Storiau diweddar efo Agor y Llyfr yn Ysgol Tremeirchion a Thwm o'r Nant rydym wedi bod yn sôn am Iesu'n tyfu i fyny, yn cael ei fedyddio ac yn lachau a chroesawu Plant. Efallai y gwelsoch gip ar Dim Llanefydd yn cyflwyno yr un Stori – dyna'r drydedd a wnaethont hwy erioed, ond rydym wedi bod wrthi ers chwe blynedd ym Mro Dinbych ac wedi cyflwyno tua cant o straeon. Mawr obeithiaf y bydd y Gwasanaeth yn parahau i'r dyfodol.

Yn ysgol Pant Pastynog rydym yn cyflwyno storiau o'r Hen Destament am Noa, a'r Tŵr Uchel ac Abraham ac yn y dair ysgol fe wnawn gyffwrdd â'r Paratoadau am y Pasg ac mae'r ymweliadau wedi eu trefnu tan fis Orffennaf.

Rwyf hefyd wedi trefnu mynd â'r Cymun yn fisol i Gartrefi Dolwen, Plas Gwyn a Plas Llanrhaeadr tan fis Rhagfyr gan rhai preswylwyr sydd yno a chysylltiadau a'r Ofalaeth ac yn gwerthfawrogi cael yr elfennau yn eu hiaith, a chadw i fyny a hanesion y Fro

Cefais wybodaeth bod Coleg Trefeca ar gael o Nos Fawrth 28ain o Fai hyd ar ôl Brecwast ddydd Gwener 31ain o Fai , yn cynnig Pryd ganol dydd a Min Nos am ddeuddydd am gôst o £150, ac mae ganddynt 14 stafell ensuite gyda 2 wely sengl ynddynt. Felly gorau po gyntaf y rhowch eich henw i lawr ac y medraf edrych ar gostau trafnidiaeth.

Hefyd dyma ddyddiad i'ch Dyddiadur – Mae Encil y Weinidogaeth Iachau yn cymryd lle ar Ebrill 6ed yng Nghapel Nercwys o 10.30 hyd 3.00 gyda Defosiwn, Astudiaeth Feiblaidd, Amser o Weddi ac Eiriolaeth, a Chymun. Croeso i unrhyw un ddod gyda mi.
Dewch mewn cysylltiad cyn Fawrth 10fed ynglyn a Threfeca a ebrill 1af ynglyn a 'r Encil ar 07870323790.
Nesta

Newyddion rhifyn E b r i l l o'r Cadwyn Bro,
erbyn dydd Gwener Mawrth 22
e-bost : **meinididdos13@gmail.com**
neu: 01745890417